

hi'n ddiwrnod braf ac roedd pawb wedi mwynhau.

Rydym yn edrych ymlaen at ddychwelyd i fywyd 'normal' rhyw ben yn ystod 2021, ond yn y cyfamser, mae croeso mawr ichi gysylltu gyda ni os gallwn fod o help ichi mewn unrhyw ffordd.

Bydd y Nadolig yn dra gwahanol eleni – wel, roedd y cyntaf un ger cafn bwyd mewn sied wartheg – felly'n ôl i'r hen ffordd o fyw a ni?



Herald Dinbych 1874

DOLYDDELEN

RHODD GAN YR YSGOL - Ar nos Sadwrn, Ionawr y 3ydd, bu i blant Ysgol Dolyddelen dderbyn anrhegion oddi tan Coeden Nadolig fendigedig yn yr ysgoldy. Daeth yr anrhegion yn bennaf drwy haelioni Mr. Charles Kurtz o Coed-y-celyn, sydd yn adnabyddus yn yr ardal am ei haelioni tuag at holl symudiadau caredig a dyngarol. Pan agorwyd y drysau, roedd 150 o bobl ifanc yn disgwyl yn eiddgar ac roedden nhw wrth eu bodd gyda'r goeden a oedd wedi'i addurno'n chwaethus gyda phob math o anrhegion. Hyn i gyd o dan oruchwyliaeth Mr. H Findlay (mab prif reolwr LNWR) wnaeth symud i'r plwyf yn ddiweddar. Bu iddo hefyd gyfrannu sawl anrheg hyfryd at yr achos.

Roedden ni'n codi swllt y pen ar oedolion. Yn ystod yr egwylion bu i Mr. Findlay a'r telynor dall ganu caneuon a bu i bawb eu cymeradwyo. Wedi dosbarthu'r anrhegion, fe roddodd Mr. Findlay afalau ac orenau i'r plant. Bu i ficer y plwyf gynnig estyn diolch o galon i Mr. Findlay, Mr. Kurtz ac i Ystâd Gwydyr am y goeden.